PWYLLGOR SAFONAU

HYSBYSIAD O BENDERFYNIAD

Cyfeirnod achos OGCC:	202405937
Yr Aelod dan sylw:	Y Cynghorydd Jackie Burnham
Yr awdurdod perthnasol:	Cyngor Tref Rhuddlan
Yr achwynydd:	Mr. Robert Williams
Dyddiad y gwrandawiad:	9 Hydref 2026
Dyddiad y penderfyniad:	13 Hydref 2026

1. Cyflwyniad

Ystyriodd y Pwyllgor Safonau yr adroddiad a gyhoeddodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o dan adran 69 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ar gyfer achos rhif 202405937, ynghylch honiadau bod y Cynghorydd Jackie Burnham o Gyngor Tref Rhuddlan wedi torri'r Cod Ymddygiad statudol.

Roedd y gŵyn yn ymwneud â chyfranogiad y Cynghorydd Burnham mewn penderfyniadau ynghylch cynnig gan Glwb Pêl-droed Rhuddlan i ddefnyddio a datblygu Cae Chwarae'r Admiral, sydd wrth ymyl ei chartref.

Mae pŵer y Pwyllgor i benderfynu ar y mater yn deillio o adran 73 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a rheoliad 7 o Reoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001.

Cyfeiriodd yr Ombwdsmon yr honiadau canlynol o dorri'r Cod:

Darpariaeth y Cod	Mater
6(1)(a)	Rhaid i Aelodau beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eu swydd neu ar eu hawdurdod.
8(a)	Rhaid i Aelodau pan fyddent yn cyfrannu mewn cyfarfodydd

	neu'n gwneud penderfyniadau ynghylch busnes y mae a wnelo eu hawdurdod ag ef, wneud hynny ar sail rhinweddau'r amgylchiadau o dan sylw ac er budd y cyhoedd gan roi sylw i unrhyw gyngor perthnasol a ddarperir gan swyddogion eu hawdurdod.
12(1)	Os bydd gan Aelodau fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eu hawdurdod ag ef bydd ganddynt hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu yn y busnes hwnnw os bydd y buddiant yn un y bydd yn rhesymol i aelod o'r cyhoedd, sy'n gwybod y ffeithiau perthnasol fod o'r farn ei fod mor arwyddocaol fel y bydd yn debygol o ragfarnu eu barn ynghylch buddiant cyhoeddus.
14(1)(a)	Os bydd gan Aelodau fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eu hawdurdod ag ef rhaid iddynt, oni roddwyd iddynt ollyngiad gan bwyllgor safonau eu hawdurdod, ymadael â'r ystafell, y siambr neu'r man lle y mae cyfarfod i ystyried y busnes yn cael ei gynnal.
14(1)(c)	Os bydd gan Aelodau fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eu hawdurdod ag ef rhaid iddynt, oni roddwyd iddynt ollyngiad gan bwyllgor safonau eu hawdurdod, beidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y busnes hwnnw.
14(1)(e)	Os bydd gan Aelodau fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eu hawdurdod ag ef rhaid iddynt, oni roddwyd iddynt ollyngiad gan bwyllgor safonau eu hawdurdod, beidio â gwneud unrhyw gynrychioliadau llafar mewn cysylltiad â'r busnes hwnnw neu rhaid iddynt roi'r gorau ar unwaith i wneud y cyfryw gynrychioliadau llafar pan ddaw'r buddiant sy'n rhagfarnu i'r amlwg.

2. Dogfennau a Thystiolaeth a Ystyriwyd

2.1 Adroddiad ymchwiliad yr Ombwdsmon dyddiedig 26 Mawrth 2026, gan gynnwys ei atodiadau a'r bwndel tystiolaeth.

2.2 Crynodeb cyhoeddedig yr Ombwdsmon o achos 202405937.

2.3 Y recordiad sain a'r trawsgrifiad o gyfarfod Cyngor Tref Rhuddlan a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2024.

2.4 Sylwadau ysgrifenedig a llafar gan yr Ombwdsmon.

2.5 Sylwadau ysgrifenedig a llafar gan y Cynghorydd Burnham.

2.6 Canllawiau ar Gosbau Panel Dyfarnu Cymru, pe bai cosb yn cael ei hystyried.

3. Crynodeb o'r Ffeithiau

3.1 Ar 23 Ionawr 2024, gofynnodd Clwb Pêl-droed Rhuddlan i Gyngor Tref Rhuddlan ystyried datblygu cyfleusterau pêl-droed ar lawr gwlad a symud ei dîm oedolion o'i gae presennol (Pengwern) i Gae Chwarae'r Admiral. Trafodwyd hyn yng nghyfarfod Cyngor Tref Rhuddlan ar 8 Chwefror 2024.

3.2 Roedd gan y Cyngor Tref un ar ddeg o aelodau; roedd tri aelod (gan gynnwys y Cynghorydd Burnham) yn byw wrth ymyl Cae Chwarae'r Admiral. Roedd y Cynghorydd Burnham hefyd yn berthynas agos i Faer y Cyngor Tref ar y pryd.

3.3 Trafodwyd y mater yn y cyfarfod ar 8 Chwefror 2024. Nid oedd y Cynghorydd Burnham yn bresennol yn y cyfarfod hwn. Datganodd un aelod fuddiant personol ac ymatal rhag pleidleisio oherwydd bod ei gartref yn agos at yr ystafelloedd newid arfaethedig.

3.4 Yn y cyfarfod ar 8 Chwefror 2024, cytunodd y Cyngor mewn egwyddor i Glwb Pêl-droed Rhuddlan ddefnyddio'r cae, o 5 pleidlais i 4, yn amodol ar gynnig manylach.

3.5 Ar ôl y cyfarfod ar 8 Chwefror 2024, gofynnodd yr aelod a oedd wedi datgan buddiant personol ac ymatal rhag pleidleisio yn y cyfarfod hwnnw i'r Swyddog Monitro, drwy e-bost, am eglurhad ynghylch y Cod Ymddygiad a buddiannau personol a buddiannau sy'n rhagfarnu.

3.6 Yn dilyn hynny, cynghorodd y Swyddog Monitro ar 11 Chwefror 2024 y gallai buddiant sy'n effeithio ar eiddo Cynghorydd neu ar ei fwynhad ohono fod yn fuddiant personol; ac y dylai'r aelod wedyn ofyn iddo'i hun a fyddai ‘aelod o'r cyhoedd sydd â gwybodaeth am y ffeithiau yn ystyried yn rhesymol fod eich buddiant mor arwyddocaol fel y byddai'n rhagfarnu eich barn ynghylch budd y cyhoedd’; cynghorodd y Swyddog Monitro, os mai ydy yw'r ateb i'r cwestiwn hwnnw, y dylai'r aelod ddatgan hynny, gadael y cyfarfod a pheidio â chymryd rhan na phleidleisio. Cynghorodd y Swyddog Monitro fod y penderfyniad hwn yn fater i bob aelod ei bwyso a'i fesur drosto'i hun.

3.7 Yn dilyn hynny, ceisiodd y Maer gael ailystyried y penderfyniad ar 8 Chwefror 2024 i ganiatáu, mewn egwyddor, i Glwb Pêl-droed Rhuddlan ddefnyddio'r cae.

3.8 Dosbarthwyd Cynnig Arbennig i chwe aelod o'r Cyngor a oedd wedi cytuno i'w gefnogi, gan nodi bod penderfyniad mis Chwefror wedi'i wneud yn rhy frysiog.

3.9 Cefnogodd chwe chynghorydd y cynnig arbennig, gan gynnwys y Cynghorydd Burnham a'r ddau gynghorydd arall a oedd yn byw wrth ymyl y cae.

3.10 Yna daethpwyd â chais Clwb Pêl-droed Rhuddlan i ddefnyddio Cae Chwarae'r Admiral yn ôl i gyfarfod Cyngor Tref Rhuddlan ar 14 Mawrth 2024. Yn y cyfarfod hwnnw, datganodd y Cynghorydd Burnham fuddiant personol am ei bod yn byw wrth ymyl y cae.

3.11 Holodd cynghorwyr eraill a ddylid caniatáu i aelodau a oedd yn byw yn agos at y cae gymryd rhan a phleidleisio ar y mater.

3.12 Mewn ymateb i'r cwestiynau hynny, dywedodd y Maer fod pum datganiad o fuddiant wedi'u gwneud, bod pob un yn ‘breifat’, a bod y Swyddog Monitro wedi eu sicrhau y gallent gymryd rhan a phleidleisio.

3.13 Nid oedd cyngor ysgrifenedig y Swyddog Monitro yn mynegi unrhyw gasgliad ynghylch a oedd gan unrhyw aelod unigol fuddiant personol neu fuddiant sy'n rhagfarnu. Yn hytrach, roedd yn nodi'r broses berthnasol a'r prawf gwrthrychol yr oedd yn ofynnol i bob aelod ei gymhwyso i'w amgylchiadau ei hun er mwyn pennu natur a graddau unrhyw fuddiant a'r camau dilynol sy'n ofynnol o dan y Cod Ymddygiad.

3.14 Cynigiodd aelod ddarllen cyngor e-bost y Swyddog Monitro ynghylch buddiannau personol a buddiannau sy'n rhagfarnu, ond ni chaniataodd y Maer hyn a symudodd yn syth at y bleidlais.

3.15 Pleidleisiodd y Cyngor o 6 i 4 i wrthod cais Clwb Pêl-droed Rhuddlan. Yr un chwe chynghorydd a oedd wedi cefnogi'r cynnig arbennig a gefnogodd wrthod y cais, gan gynnwys y Cynghorydd Burnham a'r ddau gynghorydd arall a oedd yn byw wrth ymyl y cae.

3.16 Dywedwyd wrth yr aelodau fod y mater wedi'i gau am chwe mis.

4. Penderfyniad

Penderfynodd y Pwyllgor fod y Cynghorydd Burnham wedi torri'r Cod Ymddygiad fel y nodir yn Adroddiad Ymchwiliad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Cytunodd y Pwyllgor fod y prif achos o dorri'r Cod yn ymwneud â buddiannau personol a buddiannau sy'n rhagfarnu.

Nid oedd y Cynghorydd Burnham yn bresennol yng nghyfarfod Cyngor Tref Rhuddlan ar 8 Chwefror 2024. Roedd y Cynghorydd Burnham yn bresennol yng nghyfarfod Cyngor Tref Rhuddlan ar 14 Mawrth 2024 a datganodd fuddiant personol. Fodd bynnag, methodd â datgan buddiant sy'n rhagfarnu yn y cyfarfod ar 14 Mawrth 2024, a arweiniodd at fethiant i roi ystyriaeth briodol i fudd y cyhoedd yn ei gweithredoedd wedi hynny mewn perthynas â'r penderfyniad ar gynnig Clwb Pêl-droed Rhuddlan i ddefnyddio a datblygu Cae Chwarae'r Admiral.

Yn benodol, penderfynodd y Pwyllgor fod y Cynghorydd Burnham wedi methu â chydymffurfio â'r paragraffau canlynol o'r Cod Ymddygiad:

Darpariaeth	Canlyniad	Canfyddiad / rheswm y Pwyllgor
6(1)(a)	TORRI'R COD	Methiant i ddatgan buddiant sy'n rhagfarnu sydd wedi dwyn anfri ar y Cyngor.
14(1)(a)	TORRI'R COD	Methiant i ymadael â'r cyfarfod ar 14 Mawrth 2024 pan oedd ganddi fuddiant sy'n rhagfarnu.
14(1)(c)	TORRI'R COD	Ceisio gwrthdroi neu ailedrych ar y penderfyniad a wnaed ar 8 Chwefror drwy gefnogi'r Cynnig Arbennig diweddarach, a'i chyfranogiad yn y cyfarfod ar 14 Mawrth.
14(1)(e)	TORRI'R COD	Gwneud sylwadau llafar yn y cyfarfod ar 14 Mawrth 2024, er gwaethaf y buddiant sy'n rhagfarnu.

Rhoddwyd ystyriaeth i baragraff 8(a) (rhagderfynu). Nid oedd y Cynghorydd Burnham yn y cyfarfod ar 8 Chwefror 2024 ond dywedodd ei bod wedi cefnogi'r Cynnig Arbennig (a gyflwynwyd ar ôl y cyfarfod ar 8 Chwefror 2024) am ei bod yn anghytuno â'r penderfyniad a wnaed yn y cyfarfod hwnnw. Dywedodd fod y Maer (sef tad y Cynghorydd Burnham) wedi dweud wrthi fod cynnig Clwb Pêl-droed Rhuddlan wedi'i gymeradwyo mewn egwyddor. Roedd hefyd wedi derbyn a darllen cofnodion y cyfarfod ar 8 Chwefror.

Dywedodd y Cynghorydd Burnham nad oedd wedi penderfynu a ddylid cefnogi'r cynnig ai peidio tan y drafodaeth yn y cyfarfod ar 14 Mawrth 2024. Fodd bynnag, cefnogodd y Cynghorydd Burnham y cynnig arbennig a, phan gafodd ei chyfweld gan yr Ombwdsmon a'i holi ynghylch ei safbwynt wrth benderfynu ar ei chamau gweithredu, dywedodd y Cynghorydd Burnham ei bod yn anodd pan oedd hanes o'r hyn a wnaed yn y gorffennol a “bydd y wybodaeth honno gyda chi bob amser”.

Cytunodd y Pwyllgor â'r Ombwdsmon fod yn rhaid bod y Cynghorydd Burnham, wrth gefnogi'r cynnig arbennig, wedi ystyried yn rhesymol yr hyn a ddywedwyd wrthi a'r hyn yr oedd wedi'i ddarllen, a bod ei hanghytundeb datganedig â'r penderfyniad yn y cynnig arbennig yn dangos ei bod yn amharod i gefnogi cynnig Clwb Pêl-droed Rhuddlan cyn y cyfarfod ar 14 Mawrth 2024.

Fodd bynnag, cytunodd y Pwyllgor Safonau â phenderfyniad yr Ombwdsmon ar hyn, gan mai'r methiant difrifol i ddatgan buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu mewn perthynas â'r cynnig arbennig, a buddiant sy'n rhagfarnu yn y cyfarfod ar 14 Mawrth, yw'r prif achos o dorri'r Cod. Pe bai'r Cynghorydd Burnham wedi datgan buddiant sy'n rhagfarnu, ni fyddai wedi cefnogi'r Cynnig Arbennig na bod yn rhan ohono; a phe bai'r mater wedi'i ddwyn yn ôl i gyfarfod mis Mawrth, byddai hefyd wedi gadael yr ystafell, ac felly heb gyfrannu mewn unrhyw ffordd na phleidleisio.

5. Rhesymau dros y Penderfyniad

5.1 Buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu

Ystyriodd y Pwyllgor yn ofalus natur a graddau cysylltiad y Cynghorydd Burnham â'r mater dan ystyriaeth ac a oedd ganddi fuddiant personol ac, os felly, a oedd ganddi hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu.

Roedd yr ystyriaeth yn cynnwys y canlynol:

- Lleoliad eiddo'r Cynghorydd Burnham a'i agosrwydd at Gae Chwarae'r Admiral
- Y ffaith bod y Cynghorydd Burnham wedi cael achos o'r blaen, fel un o'r trigolion, i gwyno am yr iaith a'r sŵn gan dimau pêl-droed oedolion a ddefnyddiai'r cae yn y gorffennol
- Amharodrwydd y Cynghorydd Burnham i gefnogi cynigion Clwb Pêl-droed Rhuddlan, oherwydd agosrwydd ei heiddo at y cae, effaith ei 'phrofiad uniongyrchol' o ddefnydd y tîm pêl-droed oedolion o'r cae a'r gŵyn flaenorol ynghylch iaith sarhaus a sŵn

O ystyried y ffactorau hyn gyda'i gilydd, roedd y Pwyllgor yn fodlon eu bod yn creu buddiant personol clir yn y mater.

Yna cymhwysodd y Pwyllgor y prawf gwrthrychol ar gyfer buddiant sy'n rhagfarnu. Daeth i'r casgliad y byddai aelod rhesymol o'r cyhoedd, â gwybodaeth am y ffeithiau perthnasol, yn ystyried bod y buddiant yn ddigon arwyddocaol fel ei fod yn debygol o ragfarnu barn y Cynghorydd Burnham ynghylch budd y cyhoedd.

Wrth ddod i'r casgliad hwn, pwysleisiodd y Pwyllgor nad y prawf yw a oedd y Cynghorydd Burnham yn credu y gallai weithredu'n ddiduedd, ond a fyddai sylwedydd gwybodus yn gweld yn rhesymol fod risg y gallai ei barn fod yn rhagfarnllyd. Felly, canfu'r Pwyllgor fod buddiant personol y Cynghorydd Burnham hefyd yn fuddiant sy'n rhagfarnu.

5.2 Y cynnig arbennig

Ar ôl y cyfarfod ar 8 Chwefror 2024, llofnododd y Cynghorydd Burnham gynnig arbennig a gyflwynwyd i'r clerc gan chwe aelod o Gyngor Tref Rhuddlan, gan olygu y byddai cynnig Clwb Pêl-droed Rhuddlan ar gyfer defnyddio a datblygu Cae Chwarae'r Admiral yn cael ei ddwyn yn ôl i'r cyfarfod ar 14 Mawrth 2024. Ni ddatganodd y Cynghorydd Burnham fuddiant personol na buddiant sy'n rhagfarnu pan gefnogodd y cynnig arbennig.

Canfu'r Pwyllgor y dylai'r Cynghorydd Burnham fod wedi datgan buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu ac na ddylai fod wedi cefnogi'r cynnig arbennig na bod yn rhan ohono o gwbl.

5.3 Y cyfarfod ar 14 Mawrth 2024

Cydnabu'r Pwyllgor fod y Cynghorydd Burnham wedi datgan buddiant personol yn y cyfarfod ar 14 Mawrth 2024. Fodd bynnag, canfu nad oedd y datganiad yn mynd yn ddigon pell oherwydd bod y buddiant hefyd yn un a oedd yn rhagfarnu.

Ar ôl penderfynu bod buddiant sy'n rhagfarnu yn bodoli, daeth y Pwyllgor i'r casgliad y dylai'r Cynghorydd Burnham fod wedi ymadael â'r cyfarfod ar 14 Mawrth 2024 yn syth ar ôl datgan y buddiant ac na ddylai fod wedi aros yn yr ystafell tra oedd y mater yn cael ei ystyried.

Creodd gweithredoedd y Cynghorydd Burnham risg sylweddol o danseilio hyder y cyhoedd bod penderfyniadau'r Cyngor yn cael eu gwneud yn wrthrychol, yn dryloyw ac er budd y cyhoedd, yn hytrach na bod buddiannau preifat aelodau yn dylanwadu arnynt.

5.4 Dylanwad aelodau eraill y Cyngor Tref

Pan ofynnwyd i'r Cynghorydd Burnham pam nad oedd wedi datgan buddiant sy'n rhagfarnu yn ogystal â'r buddiant personol yng nghyfarfod mis Mawrth, dywedodd ei bod yn dilyn y cyngor a roddwyd gan aelod arall yn y cyfarfod.

Penderfynodd y Pwyllgor y dylai'r Cynghorydd Burnham, sydd â phrofiad helaeth a gwasanaeth hir fel Cynghorydd Tref, fod wedi gwneud ei phenderfyniad ei hun yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad yn hytrach, a gofyn iddi'i hun a allai aelod rhesymol gwybodus o'r cyhoedd feddwl y byddai'r ffactorau sy'n benodol i'r Cynghorydd Burnham (fel uchod) yn rhagfarnu ei barn ynghylch budd y cyhoedd wrth ystyried y cynnig.

Penderfynodd y Pwyllgor, beth bynnag a ddywedodd aelod arall, y dylai'r Cynghorydd Burnham fod wedi penderfynu bod ganddi fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu, ac y dylai fod wedi gweithredu yn unol â hynny.

6 Cosb

Wrth bennu'r gosb briodol, dilynodd y Pwyllgor y broses pum cam a nodir yng Nghanllawiau ar Gosbau Panel Dyfarnu Cymru.

6.1 Difrifoldeb torri'r Cod

Roedd y Pwyllgor o'r farn bod y methiant i ddatgelu a rheoli buddiant sy'n rhagfarnu yn briodol yn achos difrifol o dorri'r Cod ac y byddai'n peri niwed sylweddol i enw da Cyngor Tref Rhuddlan.

Roedd y Pwyllgor o'r farn bod y Cynghorydd Burnham yn gyfrifol am fethu â datgan buddiant sy'n rhagfarnu wrth gefnogi'r cynnig arbennig ac yn y cyfarfod ar 14 Mawrth 2024. Roedd hyn yn golygu ei bod wedi cymryd rhan mewn mater, a phleidleisio arno, na ddylai fod wedi bod yn rhan ohono o gwbl.

Nid oes unrhyw achosion blaenorol wedi'u cofnodi o'r Cynghorydd Burnham yn torri'r Cod Ymddygiad.

6.2 Dewis y gosb bosibl

Ystyriodd y Pwyllgor yr holl gosbau a oedd ar gael, gan ddechrau gyda'r rhai a fyddai'n cael yr effaith leiaf. Daeth i'r casgliad na fyddai peidio â chymryd unrhyw gamau yn adlewyrchu difrifoldeb yr achosion o dorri'r Cod yn ddigonol. Daeth hefyd i'r casgliad na fyddai cerydd yn ddigonol, o ystyried natur yr ymddygiad a'r diffyg dealltwriaeth ymddangosiadol o'i ddifrifoldeb.

Dywedodd y Cynghorydd Burnham ei bod wedi mynychu llawer o hyfforddiant i aelodau ac wedi cwblhau hyfforddiant yn benodol ar y Cod yn 2022.

Penderfynodd y Pwyllgor mai atal o'r swydd oedd y gosb briodol a chymesur. Yn benodol, rhoddodd sylw i'w ganfyddiadau bod ymddygiad y Cynghorydd Burnham wedi tanseilio hyder y cyhoedd yn uniondeb, natur agored a diduedrwydd proses benderfynu'r Cyngor.

6.3 Ffactorau lliniarol a gwaethygol

Wrth bennu hyd y cyfnod atal, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth ddyledus i'r ffactorau lliniarol a gwaethygol canlynol:

Ffactorau lliniarol

- Hanes blaenorol o wasanaeth da dros gyfnod hir
- Roedd y camymddwyn yn deillio'n rhannol o ymdrechion aelod arall i'w dylanwadu'n amhriodol
- Ymrwymiad i geisio cyngor priodol ar y Cod yn y dyfodol; cydnabu'r Pwyllgor fod y Cynghorydd Burnham wedi datgan yn y Gwrandawiad ei bod wedi cael cyfle i fyfyrio ar y mater hwn ac wedi datgan na fyddai'n derbyn cyngor aelodau eraill, ond yn hytrach y byddai'n ceisio cyngor ei hun mewn sefyllfa debyg yn y dyfodol
- Cydweithredu â'r Swyddog Ymchwilio a'r Pwyllgor Safonau
- Parodrwydd datganedig i fynychu hyfforddiant yn y dyfodol
- Cydymffurfio â'r Cod ers y digwyddiadau a arweiniodd at y dyfarniad

Ffactorau gwaethygol

- Profiad helaeth fel Cynghorydd Tref dros nifer o flynyddoedd; ar y sail honno byddai'r Pwyllgor wedi disgwyl gwell dealltwriaeth o'r Cod a'i gymhwyso'n well yn unol â hynny
- Cydnabu'r Pwyllgor Safonau fod y Cynghorydd Burnham yn dilyn y cyngor a roddwyd gan y Maer yn ystod cyfarfod mis Mawrth. Fodd bynnag, roedd y cyngor hwnnw'n anghywir a dylai'r Cynghorydd Burnham fod wedi bod yn ymwybodol ei fod yn anghywir a gwneud ei phenderfyniad ei hun.
- Camfanteisio ar swydd o ymddiriedaeth
- Diffyg dealltwriaeth o'r camymddwyn mewn perthynas â buddiant sy'n rhagfarnu
- Ymddygiad di-hid heb fawr o ystyriaeth i'r Cod
- Gweithred sydd wedi dwyn anfri ar y Cyngor

Penderfynodd y Pwyllgor y dylid atal y Cynghorydd Burnham o Gyngor Tref Rhuddlan am fis. Argymhellodd hefyd yn gryf ei bod, ar ôl diwedd y cyfnod atal, yn ymgymryd â hyfforddiant pellach ar y Cod.